


Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad: Y Cynghorydd Chris Weaver

UCHELGAIS PRIFDDINAS



Rydyn ni am i Gaerdydd gael ei hadnabod fel un o'r Cynghorau sy'n cael eu rhedeg orau yn y DU. Dros y blynyddoedd diwethaf mae llywodraethu corfforaethol wedi cryfhau a pherfformiad wedi gwella'n raddol, gyda dangosyddion yn y rhan fwyaf o'n gwasanaethau statudol pwysicaf yn symud i'r cyfeiriad cywir. Bydd y Weinyddiaeth hon yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu cynnal.

Gwyddwn na fydd hyn yn rhwydd. Mae'r Cyngor yn wynebu diffyg cyllidebol o £81m dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn ychwanegol i'r gostyngiad o £250m yn y gyllideb dros y ddegawd ddiwethaf. Mae cwmpas a graddfa'r her gyllidebol, ochr yn ochr â'r galw cynyddol sy'n cael ei greu gan dwf cyflym y ddinas, yn golygu nad oes modd gwadu'r ffaith y bydd angen i holl wasanaethau'r Cyngor gynllunio am gyfnod o addasu sylweddol. Yn gryno, bydd angen i lawer o'n gwasanaethau cyhoeddus newid i oroesi.

Golyga hyn y bydd angen defnyddio dull 'Digidol yn Gyntaf' yn amlach, gwneud y defnydd gorau o dechnolegau i redeg ein gwasanaethau mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, yn arbennig ein gwasanaethau mwy trafodaethol, a chynnig yr un mynediad digidol ag y mae dinasyddion yn ei fwynhau ym mhob agwedd arall ar eu bywydau. Bydd hyn yn golygu masnacheiddio ein gwasanaethau pan fydd y cyfle'n codi a defnyddio'r dystiolaeth a'r data gorau posibl i dargedu adnoddau lle cânt yr effaith fwyaf. Bydd hefyd yn golygu datblygu partneriaethau pwrpasol gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill, gyda'r trydydd sector, gyda'n hawdurdodau cyfagos a, lle y bo'n briodol, gyda'r sectorau preifat ac annibynnol.

Bwysicaf oll, bydd yn dibynnu ar ein staff. Gwyddwn fod ein staff yn cael eu sbarduno gan ethos cyhoeddus cryf a'r penderfyniad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau eu dinas. Dyma'r sylfaen y mae ein gwasanaethau cyhoeddus wedi'i hadeiladu arni ac mae'n un o'r rhesymau pam ein bod yn ymrwymedig i fod yn Gyflogwr Cyflog Byw. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n staff yn ystod y cyfnod newydd hwn o gynni. Byddwn yn cefnogi ein holl weision cyhoeddus yn y gwaith hanfodol maen nhw'n ei wneud, ac i chwarae rôl weithredol yn dylunio ac arwain y newidiadau y bydd angen eu gwneud fel ein bod, er gwaetha'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu, yn cynnig y gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl i bobl Caerdydd.

Byddwn yn:

- **Cael yr hanfodion yn gywir** drwy sicrhau bod ein perfformiad yn y gwasanaethau statudol – fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol – yn parhau i wella.
- **Mabwysiadu dull Digidol yn Gyntaf** mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor.
- **Datblygu rhaglen datblygu sefydliadol 3 blynedd** newydd ar gyfer y Cyngor.
- **Cynnwys pobl a chymunedau yn fwy yn y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud** drwy gael sgwrs agored â dinasyddion am sut rydym yn delio â'r diffyg cyllidebol, sut rydym yn rhedeg ein gwasanaethau a thrwy ddarledu cyfarfodydd y Cyngor yn fwy.
- **Lansio polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol newydd** i sicrhau bod pobl a chymunedau lleol yn cael budd pan fydd y Cyngor yn gwario arian ar nwyddau a gwasanaethau.
- **Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth**, gan sicrhau bod hawliau dinasyddion yn cael eu gwarchod mewn unrhyw newidiadau i'n gwasanaethau cyhoeddus.
- **Cefnogi staff i fod yn entrepreneuriaid**, gan eu hannog i ddatblygu syniadau newydd a, lle y bo'n briodol, gynyddu referniw gwasanaethau'r Cyngor.
- **Datblygu'r gweithlu a sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol** i fodloni anghenion newidiol y Cyngor a'r galw newidiol am ei wasanaethau.
- **Hyrwyddo iechyd a lles cyflogeion y Cyngor** drwy weithio gyda'r Rhwydwaith Cyflogeion a phartneriaid yn yr Undebau Llafur.
- **Gweithio gyda'r pwyllgor pensiynau i ystyried tynnu'n ôl fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cwmnïau tanwydd ffosil**
- **Ceisio cymorth gan Undebau Llafur i roi cyfleoedd i Weithwyr Asiantaeth gael swydd barhaol** gyda'r Cyngor, ynghyd â chyflogeion eraill y Cyngor, drwy'r prosesau recriwtio arferol.